Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Cyfadran/Adran	Canolfan Dechnoleg OpTIC, Llanelwy
Adran	Caboli Optegol
Teitl y Swydd	Uwch Gabolydd Optegol
Yn atebol i	Rheolwr Cynhyrchu
Gradd	S&AP1

Prif Atebolrwydd

Bod yn brif aelod technegol o dîm bach, uchel ei gymhelliant a medrus lle mae meddwl annibynnol a hunan-gymhelliant yn hanfodol. Gweithio ar y cyd â pheirianwyr dylunio a phrofi systemau optegol profiadol i ddarparu systemau a chydrannau technoleg safonol, isel mewn nifer, gan ddarparu mewnbwn caboli arbenigol er mwyn cynnig anghenion dylunio offer, cyfyngiadau'r broses gaboli ac adnabod risgiau gyda chynigion ynglŷn â sut i'w datrys.

Bydd prif gyfrifoldebau'r swydd yn cynnwys datblygu prosesau o'r radd flaenaf ar gyfer caboli optegol CNC, llyfnhau / caboli confensiynol, metreg optegol a mecanyddol. Yn ychwanegol, datblygu technegau integreiddio i gefnogi opteg dra-chywir. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arwain ymchwiliadau i wallau cynhyrchu ac adnabod achos sylfaenol problemau, a gweithio gyda'r tîm i gynnig datrysiadau i'r Rheolwr Cynhyrchu eu cymeradwyo.

Fel rhan allweddol o'r swydd hon, bydd angen cofnodi a dogfennu canlyniadau a gweithdrefnau'n gywir, ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno gwaith a chanlyniadau'n ffurfiol i gwsmeriaid a chyfoedion academaidd. Cyflwyno canlyniadau a throsglwyddo gwybodaeth broses gynhwysfawr i gwsmeriaid allanol yn y DU a thramor. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd adolygu a chymeradwyo gwaith a gwblhawyd gan y tîm caboli, o waith corfforol i fewnbynnau ysgrifenedig, er mwyn sicrhau bod y prosesau yn cael eu dilyn, a chyflawniadau cwsmer yn cael eu bodloni i'r safon ac ansawdd disgwyliedig.

Bod yn rheolwr llinell, a darparu dull arweinyddiaeth ymarferol, datblygu staff, cefnogi sgiliau a datblygu gallu.

Mae angen hyblygrwydd o fewn y rôl, a'r gallu i integreiddio a gweithio fel rhan o dîm i weithgynhyrchu ac integreiddio cydrannau optegol o'r radd flaenaf.

Tasgau Allweddol

- Gweithio'n agos gydag uwch beirianwyr a pheirianwyr dylunio a phrofi systemau optegol profiadol i ddarparu systemau a chydrannau technoleg uchel o nifer isel, blaengar.
- Cymeradwyo sesiynau caboli sydd wedi eu trefnu gan y tîm cynhyrchu ar gydrannau uchel eu gwerth, gan sicrhau bod yr holl brosesau wedi eu dilyn a bod y risgiau wedi eu rheoli'n briodol.
- Datblygu fframweithiau i gofnodi prosesau a chanlyniadau a gyflawnwyd, gan sicrhau bod prosesau newydd yn cael eu mabwysiadu o fewn y tîm yn ddidrafferth, a monitro i sicrhau bod prosesau yn cael eu dilyn. Darparu dogfennaeth glir a chywir.
- Ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno gwaith a chanlyniadau'n ffurfiol i gwsmeriaid allanol fel rhan o ofynion contractau masnachol, wyneb yn wyneb, yn ystod galwadau cwsmer, ac yn ystod ymweliadau allanol. Cyflwyno'n fewnol i gyfoedion a rheolwyr ar ddatblygiad prosesau arfaethedig neu ddadansoddiad achosion sydd wrth wraidd.
- Ymchwilio i faterion/problemau cynhyrchu, gan adnabod yr achosion creiddiol a chynnig datrysiadau i fynd i'r afael â'r achosion creiddiol hynny er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Cynhyrchu.
- Ysgrifennu Cyfarwyddiadau gwaith a chwblhau asesiadau risg yn gywir, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.
- Darparu gwaith dogfennu costau a chynlluniau clir a manwl ar gyfer y broses hyd at ei chyflawni.
- Bod yn rheolwr llinell ar gyfer y Cabolwyr Optegol a'r Prentisiaid Gradd, ac arwain drwy ddull ymarferol.
- Hyfforddi a datblygu aelodau'r tîm cabolwyr optegol a'r tîm prentisiaid gradd gan gefnogi datblygiad sgiliau a gallu ar gyfer cyfleoedd cynnyrch newydd, gweithgynhyrchu uwch gydrannau a phrosesau prawf.
- Adnabod bylchau mewn gwybodaeth a gofynion datblygu gyda gwybodaeth o'r gost i gefnogi cynlluniau hyfforddi a chynlluniau cyllideb a grëwyd gan y Rheolwr Cynhyrchu a Busnes GIL.
- Datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun yn barhaus, mewn modd sy'n cyd-fynd ag adran ymchwil Prifysgol Wrecsam.

Caboli CNC

- Defnyddio CNC i gaboli cydrannau optegol cymhleth, nifer isel, gwerth uchel, gan ddefnyddio peiriannau caboli Zeeko i gyflawni cywirdeb ar lefel nanometr.
- Cynhyrchu llwybrau offer iteraidd CNC o fap gwallau unigryw gan ddefnyddio meddalwedd Zeeko CNC a chod G & M safonol (cod peiriant).
- Datblygu prosesau arbrofi a meincnodi i sefydlu ac optimeiddio'r canlyniadau caboli.
- Mowntio a chanoli optegau ar beiriant CNC yn ddiogel.
- Defnyddio offer a deunyddiau caboli i uchafu canlyniadau tebygol.
- Cynnig mewnbwn allweddol i'r tîm dylunio er mwyn datblygu offer caboli safonol.

Caboli / Llyfnhau Confensiynol

- Technegau blocio a mowntio optegol.
- Cyflyru offer llyfnhau.
- Llyfnhau optegau, o arwyneb garw i orffeniad arwyneb coeth.
- Cydosod offer caboli pitsh.

- Caboli i'r gorffeniad terfynol.
- Rhoi gwybodaeth o ddeunyddiau ar waith ar gyfer nifer o ddefnyddiau tonfedd.

Mesureg

- Defnyddio'r holl offer mesur â llaw megis micromedrau a chaliperau gyda chywirdeb o hyd at 0.1mm.
- Defnyddio Sfferomedrau ar gyfer radiws gyda chywirdeb hyd at +/- 10% o'r radiws.
- Defnyddio Mesurydd Proffil ar gyfer ffurf, radiws a ffitiad ansfferig gyda chywirdeb hyd at 100nm.
- Ymyriadur golau gwyn ar gyfer gwead arwyneb gyda chywirdeb hyd at 1nm.
- Ymyriaduron i fesur yn optegol gwallau yn yr arwyneb gyda chywirdeb hyd at 5nm.

Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn bodloni'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a nodir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn cysylltiad â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn, ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw ymgorffori Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb am hyrwyddo gofal cwsmer o ansawdd yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.

Disgwylir i ddeiliaid swydd gydymffurfio â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau yn y gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hwn yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swydd yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

Nodweddion Arbennig

Byddai agwedd hyblyg at yr wythnos waith i sicrhau'r potensial caboli mwyaf yn angenrheidiol.

Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Teitl y Swydd: Uwch Gabolwyr Optegol

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

Meini Prawf Dethol					
Priodoleddau		**Eitem**	**Meini Prawf Perthnasol**	**Dull Adnabod**	**Pwysigrwydd**
1	Sgiliau a Galluoedd	1.1	Caboli optegol CNC a metreg o fewn amgylchedd gweithgynhyrchu.	Ff/C	H
		1.2	Datblygu prosesau a rhaglennu peiriannau gan ddefnyddio CNC.	Ff/C	H
		1.3	Blocio a thechnegau caboli / llyfnhau confensiynol mewn amgylchedd gweithgynhyrchu.	Ff/C	D
		1.4	Dealltwriaeth o ddyluniad, theori a chymhwyso optegol sylfaenol.	Ff/C	D
		1.5	Y gallu i weithio'n ddiogel ar optegau bregus, uchel eu gwerth.	Ff/C	H
		1.6	Bod yn hunan-gymhellol, gyda'r gallu i flaenoriaethu, gweithio o fewn terfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n newid.	Ff/C	H
		1.7	Gallu dadansoddi prosesau a phrofi canlyniadau i weithredu technegau gweithgynhyrchu darbodus er mwyn datblygu prosesau gwell.	Ff/C	H
		1.8	Hyblygrwydd a'r gallu i addasu ei wythnos waith i ddefnyddio'r broses gaboli'n llawn a gwneud y mwyaf o botensial gwaith caboli.	Ff/C	H
		1.9	Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn cynnwys sgiliau cyflwyno ac ysgrifennu adroddiadau manwl a chryno.	Ff/C	H
		1.10	Y gallu i fod yn rheolwr llinell ac arwain tîm.	Ff/C	H

2	Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol	2.1	Gwybodaeth am feddalwedd caboli Zeeko gan gynnwys cynhyrchu llwybr offer.	Ff/C	D
		2.2	Y gallu i ddarllen a dehongli lluniadau optegol safon ISO 10110.	Ff/C	D
		2.3	Gallu i ddatblygu gweithdrefnau cynhyrchu yn unol â gofynion system reoli ISO9000.	Ff/C	D
		2.4	Gallu i weithio gydag ystod eang o ddeunyddiau optegol.	Ff/C	D
		2.5	Metroleg arwyneb optegol ar amrywiaeth o offerynnau, gan gynnwys sfferomedrau, proffilofesuryddion, ymyraduron a CMM.	Ff/C	D
		2.6	Offer mesur: micromedrau, caliperau, dangosyddion deialau, mesuryddion uchder.	Ff/C	D
		2.7	Profiad o gaboli Arwyneb Optegol gan ddefnyddio technegau confensiynol a CMC mewn amgylchedd gweithgynhyrchu	Ff/C	H
3	Addysg a Hyfforddiant	3.1	Gradd uchel TGAU neu gymhwyster cyfwerth mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddorau.	Ff/T	H
		3.2	Gradd mewn Peirianneg neu'n dangos profiad cyfatebol o waith yn y diwydiant.	Ff/T	H
		3.3	Sgiliau cyfrifiadurol ac MS Office yn hanfodol.	Ff/C	D
4	Profiad Perthnasol	4.1	Profiad blaenorol o weithio sifftiau.	Ff/C	D
		4.2	Profiad o ysgrifennu gweithdrefnau gweithredu ac asesiadau risg.	Ff/C	D
		4.3	Profiad o gyflwyno gwaith ysgrifenedig a llafar a wnaed a'u canlyniadau.	Ff/C	D
		4.4	Profiad blaenorol o weithio mewn tîm o gabolwyr optegol o fewn amgylchedd gweithgynhyrchu strwythuredig.	Ff/C	H
		4.5	Profiad gwaith blaenorol mewn caboli optegol CNC a metreg o fewn amgylchedd gweithgynhyrchu.	Ff/C	H
		4.6	Profiad o ddatblygiad proses a rhaglennu peiriannau gan ddefnyddio CNC.	Ff/C	H
		4.7	Profiad o dechnegau blocio a llyfnhau / caboli confensiynol mewn amgylchedd gweithgynhyrchu.	Ff/C	D
		4.8	Profiad o feddalwedd caboli Zeeko gan gynnwys	Ff/C	D

			cynhyrchu llwybr offer.		
		4.9	Profiad o ddatblygu gweithdrefnau cynhyrchu yn unol â gofynion system reoli ISO9000.	Ff/C	D
		4.10	Profiad o weithio gydag ystod eang o ddeunyddiau optegol.	Ff/C	D
		4.11	Profiad Metroleg arwyneb optegol ar amrywiaeth o offerynnau, gan gynnwys sfferomedrau, proffilofesuryddion, ymyraduron a CMM.	Ff/C	D
		4.12	Profiad o ddefnyddio offer mesur: micromedrau, caliperau, dangosyddion deialau, mesuryddion uchder.	Ff/C	D
		4.13	Profiad o reoli ac arwain tîm.	Ff/C	H
5	Gofynion Arbennig	5.1	Ardystiad tryciau fforch godi.	Ff/C	H
		5.2	Bydd gofyn gweithio sifftiau pan fydd y broses yn galw am hynny, bydd hyn yn bennaf yn ystod y boreau a'r prynhawn, bydd sifft nos yn llai tebygol.	Ff/C	H
		5.3	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ff/C	H
Dyddiad Adolygu			Ebrill 2025		

Allwedd	**Dull Adnabod**	**Ff**	Ffurflen Gais
		C	Cyfweliad
		P	Prawf
		T	Copi o Dystysgrifau
		Rh	Rhoi Cyflwyniad
		G	Asesiad Grŵp
	Pwysigrwydd	**H**	Hanfodol
		D	Dymunol

Job Description

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Faculty/Department	OpTIC Technology Centre St Asaph
Section	Optical Polishing
Job Title	Senior Optical Polisher
Reports to	Production Manager
Grade	S&AP1

Principal Accountabilities

To be a leading technical member of a small, highly motivated and skilled team where independent thought and self-motivation are required. Working in conjunction with experienced optical systems design and test engineers to deliver leading edge, low volume, high technology systems and components providing expert polishing input to propose tooling design requirements, polishing process limitations and identify risks with proposed mitigating actions.

The main duties of the role will include leading a team, the development of state-of-the-art process of optical CNC polishing, conventional smoothing / polishing, optical and mechanical metrology. In addition the development of integration techniques to support precision optics. The post holder is expected to lead investigations into production errors or issues identifying root cause problems and working with the team to propose solutions for the Production Manager's approval.

A key part of this role is to produce accurate recording and documentation of results and procedures, report writing and formal presentation of work and results to commercial customers and academic peers. Presenting comprehensive results and transferring process information to external customers both UK and overseas. The post holder will be expected to review and sign off work completed by the polishing team from physical work to written inputs ensuring processes are followed and customer deliverables are to the required standard and quality.

Line management and provision of a hands-on leadership approach, developing staff, supporting skill and capability development.

Flexibility within the role is required, with the ability to integrate and work as a team to manufacture and integrate high and optical components.

Key Tasks

- Working closely with experienced and senior optical systems design and test engineers to deliver leading edge, low volume, high technology systems and components.
- To approve polishing runs set up by the production team on high value components, ensuring all processes have been followed and that any risks have been appropriately managed.
- Develop frameworks to record processes and results achieved, ensuring smooth adoption of new processes within the team and monitoring that processes are being followed. Provide clear and accurate documentation.
- Report writing and formal presentation of work and results to external customers as part of commercial contract requirements in person, during customer calls and external visits. Presenting internally to peers and managers on proposed process developments or root cause analysis.
- To investigate issues/problems in production identifying root causes and proposing solutions to address the root cause for approval by the Production Manager.
- To accurately write work Instructions and complete risk assessments in line with the Health and Safety policy of the University.
- To provide clear and accurate documenting of costings and process plans through to delivery.
- Line management of the Optical Polishers and Degree Apprentices and provision of a hands on leadership approach.
- Train and develop the optical polishers and degree apprentice team members supporting skill and capability development for new product opportunities delivering advanced component manufacture and test processes.
- Identifying knowledge gaps and development requirements with cost information to support training plans and budget planning by the Production and GIL Business Manager.
- To continually develop own skills and knowledge aligned with the Wrexham University research department.

CNC Polishing

- CNC polishing of high value, low volume, complex optical components using Zeeko polishing machines delivering nanometer level accuracy.
- Generating CNC iterative toolpaths from a bespoke error map interpretation using Zeeko CNC software and standard G & M code (machine code).
- Develop processes experimentation and benchmarking to establish and optimize the polishing results.
- Secure mounting and centering of optics onto a CNC machine.
- Utilisation of Polishing tools and materials to maximize predicted results.
- Provide key input into the design team for the development of advanced polishing tooling.

Conventional Smoothing / Polishing

- Optical blocking and mounting techniques.
- Conditioning of smoothing tools.
- Smoothing of optics from coarse to fine grade surface finish.
- Make up of pitch polishing tools.
- Polish to final finish.
- Apply knowledge of material for multiple wavelength applications.

Metrology

- Use of all handheld measuring equipment such as micrometers, calipers to an

accuracy up to of 0.1mm.

- Use of Spherometers for radius to an accuracy of +/- 10% of radius.
- Use of Profilometer for form, radius and aspheric fit accuracy of up to 100nm.
- White light interferometer for surface texture to an accuracy of up to 1nm.
- Interferometers to optically measure surface error to an accuracy of up to 5nm.

General Duties

You will ensure that appropriate management systems and procedures are in place to meet your health and safety duties and responsibilities contained within the University's health and safety policy. In particular you will ensure that appropriate risk assessments are carried out in respect of significant hazards and that safety inspections are undertaken on at least an annual cycle in each workplace under your control.

It is the responsibility of employees to apply the University's Equal Opportunities Policy in their own area of responsibility and in their general conduct.

All staff have a responsibility for promoting high levels of customer care within their own areas of responsibility.

Staff must be aware of the University's commitment to Sustainability.

All staff must promote healthy behaviour and positive mental health and wellbeing

Post holders are expected to co-operate with the Professional Development Review (PDR) process, engaging in the setting of objectives in order to assist in the monitoring of performance and the development of the individual.

You will assess the training and development needs of each member of staff under your control to ensure they are adequately supported in relation to their work responsibilities.

Such other relevant duties commensurate with the grade of the post as may be assigned by the Manager in agreement with the post holder. Such agreement should not be unreasonably withheld.

The key responsibilities contained in this job description are indicative not exhaustive. Duties and responsibilities may be altered in discussion with the post holder.

All post-holders within the Directorate are expected to be able to provide support across all areas, beyond their immediate team, as requested by the Director and commensurate with their skills, knowledge and experience.

Special Features

A flexible approach to the working week to fully maximize the polishing potential would be necessary.

Review

This is a description of the job at the time of issue. It is the University's practice periodically to review and update job descriptions to ensure that they accurately reflect the current nature of the job and requirements of the University and to incorporate reasonable changes where required, in consultation with the job holder.

Person Specification

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Job Title: **Senior Optical Polisher**

In order to be shortlisted you must demonstrate that you meet all the essential criteria and as many of the desirable criteria as possible. Where we have a large number of applications that meet all of the essential criteria, we will then use the desirable criteria to produce the shortlist.

Selection Criteria

Attributes		Item	Relevant Criteria	Identification Method	Rank
1	Skills & Abilities	1.1	CNC optical polishing and metrology within a manufacturing environment.	A/I	E
		1.2	CNC machine programming and process development.	A/I	E
		1.3	Blocking and conventional smoothing / polishing techniques within a manufacturing environment.	A/I	D
		1.4	Understanding of basic optical design, theory and application.	A/I	D
		1.5	Ability to work safely on fragile, high value optics.	A/I	E
		1.6	To be self-motivated with the ability to prioritise, meet deadlines and manage changing priorities.	A/I	E
		1.7	To be able to analyse processes and test results to implement lean manufacturing techniques to develop improved processes.	A/I	E
		1.8	Flexibility and the ability to modify their working week to fully utilise the polishing process and maximise the potential polishing capabilities.	A/I	E
		1.9	Excellent written and verbal communication skills, including concise and detailed report writing and presentation skills.	A/I	E
		1.10	Ability to line manage and lead a team.	A/I	E

2	General & Specialist Knowledge	2.1	Knowledge of Zeeko polishing software including toolpath generation.	A/I	D
		2.2	The ability to read and interpret optical drawings ISO 10110 standard.	A/I	D
		2.3	Ability to develop production procedures in line with ISO9000 management system requirements.	A/I	D
		2.4	Ability to work with a wide range of optical materials.	A/I	D
		2.5	Optical surface Metrology on a variety of instruments, including spherometers, profilometers, interferometers and CMM.	A/I	D
		2.6	Measurement tools: micrometers, calipers, dial indicators, height gauges.	A/I	D
		2.7	Optical Surface polishing experience using both conventional and CNC techniques in a manufacturing environment.	A/I	E
3	Education & Training	3.1	Higher grade GCSE or equivalent in Mathematics, English and Sciences.	A/C	E
		3.2	Engineering degree or demonstrate equivalent industrial operations experience.	A/C	E
		3.3	MS Office and computer literacy essential.	A/I	D
4	Relevant Experience	4.1	Previous shift working experience.	A/I	D
		4.2	Experience in writing operating procedures and risk assessments.	A/I	D
		4.3	Experience of written and verbal presentation of work undertaken and their results.	A/I	D
		4.4	Previous experience of leading a team of optical polishers within a structured manufacturing environment.	A/I	E
		4.5	Previous work experience in CNC optical polishing and metrology within a manufacturing environment.	A/I	E
		4.6	Experience in CNC machine programming and process development.	A/I	E

		4.7	Experience in blocking and conventional smoothing/polishing techniques within a manufacturing environment.	A/I	D
		4.8	Experience of Zeeko polishing software including toolpath generation.	A/I	D
		4.9	Experience of developing production procedures in line with ISO9000 management system requirements.	A/I	D
		4.10	Experience of working with a wide range of optical materials.	A/I	D
		4.11	Optical surface Metrology experience on a variety of instruments, including spherometers, profilometers, interferometers and CMM.	A/I	D
		4.12	Experience using measurement tools: micrometers, calipers, dial indicators, height gauges.	A/I	D
		4.13	Experience of managing and leading a team.	A/I	E
5	Special Requirements	5.1	Forklift truck certified.	A/I	E
		5.2	Will be required to work shifts when the process dictates, this will mainly revolve around mornings and afternoons, night shift will be less likely.	A/I	E
		5.3	Ability to communicate in the medium of Welsh.	A/I	E
Date of Revision			April 2025		

Key	**Identification Method**	**A**	Application Form
		I	Interview
		T	Test
		C	Copy of Certificates
		P	Presentation
		G	Group Assessment
	Rank	**E**	Essential
		D	Desirable